# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac Amser

**11.15 y.b., DYDD GWENER, 30AIN TACHWEDD, 2018**

Lleoliad

**Y Ganolfan, Porthmadog, LL49 9LU**

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen**

**01286 679665**

**sionmareduddowen@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD: 23/11/18)

## CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

### AELODAETH

## Cyngor Gwynedd

Y Cynghowyr

| | |
|---|---|
| Dylan Bullard | E. Selwyn Griffiths |
| Annwen Hughes | Anne Lloyd Jones |
| Eryl Jones-Williams | Dewi Owen |
| Angela Russell | Eirwyn Williams |
| Gethin Glyn Williams | Owain Williams |

## Cyngor Sir Ceredigion
Aros am enwebiad

## Cyngor Sir Powys

Cynghorydd J M Williams

### AELODAU CYFETHOLEDIG:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd *J M Williams* | *Cyngor Sir Powys* |
| *Dafydd Elis-Thomas* | *Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd* |
| *Liz Saville Roberts* | *Aelod Seneddol Dwyfor/Meirionnydd* |
| *Dave Thomas* | *Llywodraeth Cymru* |
| *Claire Britton* | *Rheilffordd Ffestiniog* |
| *Cynghorydd Trevor Roberts* | *Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth* |
| *Tim Bell* | *Trafnidiaeth Cymru* |
| *Ben Davies* | *Trafnidiaeth Cymru* |
| *David Crunkhorn* | *Trafnidiaeth Cymru* |
| *Samuel Hadley* | *Network Rail* |
| *Carl Jones* | *Network Rail* |
| *Helen Lewis* | *Ysgol Uwchradd Tywyn* |
| *Tudur O Williams* | *Ysgol Ardudwy* |

| | |
|---|---|
| *Pennaeth* | *Coleg Meirion-Dwyfor* |
| *Joyce Watson* | *AC Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru* |
| *Helen Mary Jones* | *AC Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru* |
| *Neil Hamilton* | *AC Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru* |
| *Stuart Williams* | *Rheilffordd Talyllyn* |
| *Roger Goodhew* | *Cymdeithas Teithwyr Amwythig-Abersytwyth* |
| *Sgt. Karl Anderson* | *Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig* |
| *Freya Hannah Bentham* | *Parc Cenedlaethol Eryri* |
| *PC Andy Greaves* | *Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig* |
| *Inspector Mark Armstrong* | *Heddlu Gogledd Cymru* |
| *Cynghorydd Delwyn Evans* | *Grwp Mynediad Meirionnydd* |
| *Cynghorydd Alun Wyn Evans* | *Cynrychiolydd Meirionnydd o Un Llais Cymru* |
| *Cynghorydd Trefor Jones* | *Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru* |
| *Claire Williams* | *Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian* |
| *Chris Wilson* | *Cyngor Sir Ceredigionl* |
| *Ann Elias* | *Cyngor Sir Ceredigionl* |

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol cadeirydd i'r pwyllgor hwn ar gyfer 2018-19.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwn ar gyfer 2018-19.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatgniadau o fuddiant personol

**5. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw faterion sydd yn faterion brys ym marn y cadeirydd.

**6. COFNODION** 6 - 11

I gadarnhau cofnodion y cyfarod blaenorol a gynhaliwyd ar y 9fed o Fawrth 2018.

**7. ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL**

I dderbyn adroddiad gan Mr Sam Hadley, Network Rail.

**8. ADRODDIAD GAN TRAFNIDIAETH CYMRU**

I dderbyn adroddiad gan Mr Ben Davies, Trafniadiaeth Cymru.

**9. ADRODDIAD Y RHEOLWR UNDED TRAFNIDIAETH INTEGREDIG**

I dderbyna droddiad gan Reolwr yr Uned Drafniadiaeth Integredig.

**10. ADRODDIAD SWYDDOG RHEILFFORDD Y CAMBRIAN** 12 - 14

I dderbyn adroddiad Swyddog Rheilffordd y Cambrian.

**11. ADRODDIAD HEDDLU TRAFNIDIAETH BRYDEINIG**

I dderbyn adroddiad gan gynrhychiolydd o'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

**12. CWESTIYNAU FFURFIOL** 15 - 20

I dderbyn atebion i unrhyw gwestiynnau amgaedig a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.

# CYNHADLEDD GYSWLLT RHEIFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN DYDD GWENER, 9 MAWRTH 2018

**Cofnodion cyfarfod Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian a gynhaliwyd yn y Ganolfan, Porthmadog, ar ddydd Gwener, 9 Mawrth 2018 o 11.15 a.m. tan 1.00 p.m.**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd E. Selwyn Griffiths - Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams - Is-gadeirydd**

**Yn cynrychioli:**

Y Cynghorwyr Dewi Owen, Annwen Hughes, Angela A. Russell, Eirwyn Williams, (Cyngor Gwynedd), Cyng. J.Michael Williams (Cyngor Sir Powys), Cyng. Freya Bentham (Awdurdod y Parc Cenedlaethol), Cyng. Trefor Jones (Cynrychiolydd Dwyfor Unllais Cymru), Cyng. Trevor Roberts (Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth), Mr Stuart Williams (Rheilffordd Talyllyn), Mr Ben Davies (Trenau Arriva Cymru), Mr Sam Hadley (Network Rail), Mr Roger Goodhew (Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Amwythig-Aberystwyth), Mrs Claire Williams (Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian), Mrs Llinos Williams (Cydlynydd Trafnidiaeth), Mrs Mererid Watt (Cyfieithydd), Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi'r Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dylan Bullard, Anne Lloyd Jones, Gethin Williams, Owain Williams (Cyngor Gwynedd), Mr Tudur Williams (Pennaeth Ysgol Ardudwy), Yr Heddwas Rob Newman (Heddlu Trafnidiaeth Prydain), Liz Saville Roberts (AS Dwyfor/Meirionnydd), Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas (Aelod Cynulliad Dwyfor/Meirionnydd), Cyng. Delwyn Evans (Grŵp Mynediad Meirionnydd), Mr Alun Wyn Evans (Cynrychiolydd Meirionnydd Unllais Cymru), Ann Elias (GMW)

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. MATERION BRYS

Nid oedd y Cadeirydd wedi derbyn unrhyw faterion brys.

## 3. COFNODION

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod y gynhadledd a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2017.

**Penderfynwyd:** Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion.

## 4. <u>ADRODDIAD GAN NETWORK RAIL</u>

Croesawyd Mr Sam Hadley, Rheolwr Materion Cyhoeddus Llwybrau Cymru, i'r cyfarfod ac fe adroddodd ar y materion isod:

(a) Tywydd eithafol - tynnwyd sylw at y cyfnod adfer arbennig o sydyn wedi'r tywydd garw a gafwyd ar draws Cymru'r wythnos ddiwethaf, ac ar ben hyn bu'n rhaid tynnu'r fflyd 175/1758 i ffwrdd dros dro oherwydd niwed i olwynion. Roedd timau Network Rail a Threnau Arriva Cymru wedi gweithio'n arwrol o Fôn i Fynwy yn mynd i'r afael gydag ystod o effeithiau'r tywydd - o luwchfeydd 8 troedfedd o uchder i bibonwy enfawr ar dwnnel Ffestiniog a phwyntiau a signalau wedi rhewi ar draws y rhwydwaith.

Rhoddwyd teyrnged arbennig i'r timau trac ac i ffwrdd o'r trac, oedd yn gweithio o Ddepo Machynlleth. Roeddent wedi gweithio yn ddiflino ar ddydd Iau / dydd Gwener ac yna wedyn dros y penwythnos yn archwilio'r pwyntiau, yn profi'r llwybr ac yn helpu i glirio'r llwybr mynediad i Orsaf Machynlleth ac mewn mannau eraill.

Nodwyd ymhellach fod 25 o goed wedi cwympo ar y llwybr rhwng Cyffordd Dyfi a Phwllheli yn unig. Derbyniodd Network Rail ymateb ardderchog gan y cyhoedd yn ystod y tywydd garw.

Talodd swyddogion ac aelodau'r Gynhadledd deyrnged arbennig gan ddiolch i staff rheng-flaen am eu hymdrechion anhygoel a'u gwaith caled dan amgylchiadau anodd iawn.

(b) Cynllun Busnes Strategol

Tynnwyd sylw'r aelodau at y ffaith fod Network Rail wedi cyhoeddi ei gynllun busnes strategol cyntaf ar gyfer llwybr datganoledig Cymru a'r Gororau mis diwethaf. Roedd hon yn ddogfen allweddol o ran ariannu ar gyfer y cyfnod contract nesaf. Roedd yn canolbwyntio yn gyfan gwbl ar weithrediadau, cynnal a chadw ac adnewyddu - y rheilffordd 'sefydlog' gan y bydd gwelliannau yn awr yn cael eu hystyried ar wahân. O ran diddordeb lleol, nid oedd y cynllun yn cynnwys ailwampio £20m+ i Draphont Abermaw, fel rhan o'r cyfanswm ariannu o £1.3b. Dyma'r tro cyntaf y bydd Llwybr datganoledig Cymru yn derbyn ei setliad ariannol ei hun wedi'i reoleiddio a chred Network Rail ei fod wedi datblygu cynllun cryf. Yn ddiweddar, cwblhawyd yr olaf o'r cyfarfodydd ffurfiol gyda'r rheoleiddiwr, Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, a hyderir y bydd setliad llawn y bid a gyflwynwyd yn cael ei dderbyn fel rhan o'r cynllun.

Roedd hefyd wedi bod yn bwysig cael cefnogaeth gref Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru oedd â rhan agos yn natblygiad y cynllun uchod. Trwy sefyll gyda'r gweithwyr allweddol a'r rhanddeiliaid cred Network Rail fod ganddynt setliad ardderchog i Gymru a'r Gororau.

Anfonwyd copi o'r crynodeb at y Swyddog Cefnogi Aelodau a bydd hithau yn ei thro yn anfon copi ymlaen at aelodau'r Pwyllgor.

(c) Diweddariad ar brosiectau lleol allweddol

- Roedd gorsaf Penhelyg wedi bod ar gau am nifer o fisoedd i alluogi Network Rail i ail-adeiladu'r holl blatfform. Nodwyd fod y gwaith yn mynd rhagddo'n dda iawn ac yn ôl yr amserlen, fel y gallai'r orsaf ail-agor ar y 1af o Ebrill.
- Gorsaf Tywyn - Darperir cynllun i wella'r platfform gan fod rhan o'r hen blatfform pren sydd wedi breuo wedi ei gau i deithwyr, ond bydd yr orsaf yn parhau yn agored yn ystod y gwaith.
- Gwaith mawr i adnewyddu trac sydd yn brosiect £7.25m fydd yn gweld hyd at 6km o'r trac yn cael ei adnewyddu rhwng Talerddig a Chaersws. Bydd yr hen gledrau cymalog yn cael eu newid gyda chledrau newydd asiedig fydd yn gostwng y sŵn i'r rhai sy'n byw ger y rheilffordd a rhoi gwell taith i'r teithwyr. Mae hyn hefyd yn cadw'r costau cynnal a chadw i lawr dros y tymor hirach ac yn rhan o strategaeth hirdymor Network Rail i newid y cledrau cymalog ar Lein y Cambrian.
- Roedd prosiectau eraill yn cynnwys Netin Creigiau Aberdyfi; adnewyddu pont afon Artro ac wrth gwrs traphont Abermaw.

I gloi, dywedodd Mr Hadley fod Network Rail yn ymroddedig i ddyfodol hirdymor a thwf Rheilffordd y Cambrian a Rheilffordd Arfordir y Cambrian.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nododd yr aelodau'r materion isod:

(i) Pryder bod 5 set o oleuadau traffig (3 ohonynt yn gyfrifoldeb Network Rail) ar ran 6 milltir o ffordd yn Aberdyfi ac roedd yr aelod lleol wedi derbyn cwynion gan yrwyr ambiwlans yn ogystal â gyrwyr bysiau lleol oherwydd yr anghyfleustra yn enwedig gyda'r Pasg ar y gorwel pan fyddai'r ffyrdd ac Aberdyfi yn brysur iawn.

I ateb yr uchod, dywedodd Mr Hadley y byddai'n siarad gyda Rheolwr y Tîm Prosiect gan adrodd yn ôl maes o law i'r Cynghorydd Dewi Owen.

(ii) Adroddwyd fod Aberdyfi wedi dod yn boblogaidd iawn gyda theithwyr o ardal Porthmadog. Dywedodd yr Aelod Lleol fod gwasanaeth tacsi ar gael o Benhelyg i'r brif orsaf drenau.

(iii) Oherwydd nifer y coed oedd wedi cwympo ar hyn lein y rheilffordd, gofynnwyd a ddylid cynnal arolwg o'r coed cyn unrhyw dywydd eithafol.

Atebodd Mr Hadley gan ddweud fod Network Rail yn cynnal arolygon rheolaidd ond roedd rhai o'r coed oedd wedi cwympo ar dir trydydd parti. Er y gwerthfawrogwyd y gellid gwneud mwy o safbwynt hyn, dywedwyd mai dim ond rhwng mis Medi a Mawrth y gellid ymgymryd â'r gwaith.

Os oedd contractwyr coed lleol yn yr ardal, cytunodd Mr Sam Hadley i anfon y manylion i'r Tîm Caffael i gyfeirio atynt yn y dyfodol.

(iv) I ateb cwestiwn gan aelod lleol am Faes Parcio Dyffryn Ardudwy, addawodd Mr Hadley y byddai'n holi i weld beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf.

**Penderfynwyd - Derbyn a nodi’r adroddiad a diolch i’r swyddog amdano ac am fynychu'r cyfarfod.**

## 5. ADRODDIAD GAN DRENAU ARRIVA CYMRU

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Ben Davies, Trenau Arriva Cymru, i gyflwyno ei adroddiad ar weithgareddau Trenau Arriva Cymru hyd yma.

Dywedodd Mr Davies erbyn hyn mai dim ond dau gwmni oedd yn ymgeisio i redeg y gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru o 2018.

O ran y mesur perfformiad cyhoeddus, nodwyd fod Trenau Arriva Cymru yn chweched allan o 26 yn y DU oedd yn golygu fod trenau ar amser. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda bysiau Traws-Cymru er mwyn trefnu gwell cysylltiadau gyda'r trenau. Yn ogystal, roedd Mr Davies mewn cysylltiad gyda swyddogion CADW am y cynigion dau docyn am bris un i deithwyr oedd yn ymweld â'r ardal.

I gloi, dywedodd Mr Davies fod y canopi ar Orsaf y Borth wedi ei drwsio ac wedi ei osod yn ei le yn ystod y deuddydd diwethaf.

**Penderfynwyd - Derbyn a nodi’r adroddiad a diolch i Mr Ben Davies am ei adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD SWYDDOG DATBLYGU RHEILFFYRDD Y CAMBRIAN

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Claire Williams, Swyddog Parterniaeth Rheilffyrdd y Cambrian, i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

Amlinellodd y gweithgareddau wnaed ers y cyfarfod blaenorol sef:

### (a) Gwella cysylltiadau gyda chymunedau lleol a'u rheilffordd

Roedd gwaith cymunedol ac ymgysylltu yn parhau gyda Threnau Arriva Cymru a Network Rail. Yn ddiweddar, cynhaliwyd cystadleuaeth diogelwch croesfannau rheilffordd gydag Ysgol Maenofferen, Blaenau Ffestiniog, Ysgol y Traeth, Abermaw ac Ysgol Tan y Castell, Harlech, fel rhan o'r bartneriaeth gyda Network Rail i newid ffordd o feddwl pobl ifanc am bwysigrwydd croesfannau rheilffordd ac i ddangos iddynt y peryglon o beidio eu defnyddio'n gywir. Cafodd y buddugol a'r ddau oedd yn ail docynnau teulu rhad ac am ddim i weld Siôn Corn ar Reilffordd yr Ucheldir a Ffestiniog a thocynnau gan Bartneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian a Chyngor Llyfrau Cymru.

### (b) Gwelliannau parhaus a datblygiad gwasanaethau rheilffordd a seilwaith presennol

Cynhelir cyfarfodydd rhanddeiliaid allweddol bob mis i ddatblygu Bow Street, gyda chadeirydd SARLC hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Yn ddiweddar, gofynnwyd i Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian gan Lywodraeth Cymru a Network Rail i arwain elfen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y prosiect. Byddai'r cynlluniau yn mynd allan i ymgynghoriad cyn bo hir ac ar hyn o bryd roeddent yn gweithio gyda nifer sylweddol o grwpiau anabledd a chydraddoldeb i sicrhau nad oes gan y cynlluniau effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

### (c) Cynhyrchu amserlen benodol i lein leol

Mae amserlen boced Rhagfyr 2017 - Mai 2018 wedi ei chynhyrchu a'i dosbarthu i'r Canolfannau Croeso perthnasol, gorsafoedd a mannau gwerthu perthnasol eraill. Bydd Swyddog Rheilffyrdd Partneriaeth y Cambrian hefyd yn gweithio'n agos gyda TAC ar unrhyw newidiadau i amserlen Mai 2018 - Rhagfyr 2018.

### (d) Arolygon

Roedd Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian yn falch o gael gweithio gyda Phwyllgor Cyswllt Rheilffordd Amwythig i Aberystwyth gan gomisiynu arolwg a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2017 fel rhan o'r grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arolygon yn dilyn llwyddiant arolygon 2013 a 2015 a olygodd well gwasanaethau ar Leiniau'r Cambrian. Cyflwynwyd canlyniadau'r arolwg i Gareth Evans, Economegydd Rheilffyrdd Llywodraeth Cymru ynghyd â swyddogion eraill LlC, gan y Pwyllgor ar Dachwedd 17eg 2017 mewn cyfarfod ym Mharc Cathays. Wedyn fe rannwyd yr wybodaeth yma i'r rhai fyddai'n gwneud bid am y fasnachfraint fel gwybodaeth gefnogol ar gyfer eu bid olaf, yr oedd yn rhaid ei gyflwyno i LlC a Thrafnidiaeth Cymru.

### (e) Ymgyrch Hyrwyddo 2018/19

Roedd y SDRh hefyd wedi cytuno gyda'r bartneriaeth er mwyn gwneud y defnydd gorau o thema 'Blwyddyn y Môr 2018' Croeso Cymru, y byddai'n syniad da estyn gwahoddiad i dendro i greu a rheoli ymgyrch cyfryngau cymdeithasol Blwyddyn y Môr ynghyd â pharhau i reoli a chynnal gwefan newydd 'Cymru ar Gledrau'. Anfonwyd y gwahoddiad ym mis Rhagfyr er mwyn derbyn ymateb erbyn canol Ionawr. Dyfarnwyd y contract i Equinox Communications yng Nghaerdydd, sydd eisoes wedi dechrau gwneud newidiadau sylweddol a gwella'r wefan a'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gyda'r wefan newydd http://www.walesonrails.com a

ddylai fynd yn 'fyw' yng nghanol mis Mawrth yn barod ar gyfer y Pasg. Cafodd yr aelodau gyfle i weld y wefan yn y cyfarfod.

**(f) Adroddiadau a Chyfarfodydd**

Dywedodd Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian ei bod hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd cynghorau tref i godi proffil y bwriad o wneud Lein Rheilffordd y Cambrian yn Gymuned Ddementia Gyfeillgar ei hun. Roedd nifer o drefi fel Machynlleth, Y Trallwm, Porthmadog a'r Drenewydd eisoes yn gymunedau Dementia Gyfeillgar ac yn awr am ychwanegu teithio at eu cynlluniau gweithredu ac roedd hi a'r Cydlynydd Cymunedau Dementia Gyfeillgar yn eu helpu i gael y statws yma i'w gorsafoedd. Roedd Rheolwr Gyfarwyddwr Traveline Cymru hefyd wedi gofyn am gymorth o ran arfer dda a sut i wneud eu hunain yn sefydliad dementia gyfeillgar.
Nodwyd ymhellach mai'r gobaith oedd trefnu i grwpiau bach gyda dementia i ymgysylltu gyda phlant mewn amryfal ddigwyddiadau.

**(g)** Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y materion isod:

(i) Croesawodd y Cadeirydd y cydweithio gyda chymunedau yn arbennig helpu'r bobl hynny oedd yn dioddef o ddementia a gofynnwyd i Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian i anfon manylion unrhyw ddigwyddiadau at y Swyddog Cefnogi Aelodau iddi hithau eu hanfon ymlaen i'r aelodau iddynt roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau yn eu wardiau.

**(ii)** Roedd hi hefyd yn galonogol nodi bod gwaith yn digwydd gydag ysgolion am groesfannau rheilffordd. Wrth ymateb, dywedodd Swyddog Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian ei bod ar hyn o bryd yn gweithio ar brosiect i groesfannau rheilffordd drwy greu dau fideo, un ar gyfer ymwelwyr a'r llall i deuluoedd ifanc, a hyderir y byddant wedi eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth gan wedyn eu dosbarthu i'r ysgolion. Byddai hyd y fideo tua dau funud a byddai gofyn iddynt wylio ac arwyddo y byddant yn glynu at ofynion croesfannau rheilffordd.

(iii) Llongyfarchwyd Swyddog Rheilffyrdd Partneriaeth y Cambrian ar ei gwaith i gael mwy o deithwyr i ddefnyddio'r rheilffordd. Er hynny, roedd angen mwy o gerbydau h.y. 4 cerbyd ar y lein, yn arbennig yn ystod y gwyliau.

Atebodd Mr Ben Davies (Trenau Arriva Cymru) a chytunodd bod angen mwy o gerbydau ond dywedodd fod diffyg stoc o drenau yn y DU ac roedd y cwmni yn gorfod dibynnu ar raeadru'r stoc. Yr haf yma bydd yn bosib rhaeadru cerbydau i Lein y Cambrian gyda'r posibilrwydd o weld trenau 4 cerbyd ar y lein. Nodwyd ymhellach fod hyn yn fater roedd angen i'r fasnachfraint newydd ymchwilio iddo ac y dylid lobio Llywodraeth Cymru. Nid oedd diffyg staff a gyrwyr yn broblem yn awr.

(iv) Roedd y cynnig dau docyn am bris un gyda CADW yn syniad ardderchog ac anogwyd y dylid hysbysebu hyn yn eang yn y cymunedau, mewn gwersyllfaoedd lleol, gwestai ac ati.

(v) O ran y wefan newydd, awgrymwyd y byddai’n fanteisiol nid yn unig i gael dolen ar gyfer mannau i aros ond hefyd i wasanaethau tacsi lleol. Roedd llawer mwy o bobl yn defnyddio'r trên ond roedd rhai teithwyr yn cael trafferth i fynd ymhellach oherwydd bod gwasanaethau bws wedi eu colli yn yr ardal.

Atebodd Mr Ben Davies drwy ddweud ei fod yn gweithio'n agos gyda Rheolwr TrawsCymru i geisio cysylltu mwy o drenau gyda'r bysiau ond roedd llawer o gyfyngiadau h.y. contract i sicrhau fod plant ysgol yn cyrraedd Ysgol Ardudwy ar amser.

**Penderfynwyd - Derbyn a nodi’r adroddiad a diolch i Swyddog Rheilffyrdd Partneriaeth y Cambrian amdano.**

## 7. CWESTIYNAU FFURFIOL

Roedd cwestiynau ysgrifenedig ffurfiol wedi eu cyflwyno gan amryw o Gynghorau Cymuned a chafwyd yr atebion isod:

**(a) Cyngor Tref Cricieth - A oes diweddariad ar gael arwyddion i'r stesion drên yng Nghriccieth?**

Roedd y Cydlynydd Trafnidiaeth Cyhoeddus wedi gwneud ymholiadau ac wedi anfon e-bost at y Swyddog Cefnogi Aelodau yn nodi mai Cyngor Gwynedd oedd berchen y tir, ond oherwydd diffyg lle parcio a gan nad oedd y ffordd yn addas i nifer o gerbydau, nid oedd yr Adran Draffig yn awyddus i gyfeirio cerbydau yno. Er hynny, byddent yn barod i ystyried mwy o arwyddion i gerddwyr. Os oedd Cyngor y Dref yn dymuno trafod y mater ymhellach, gellid gwneud cais er sylw Dylan Wynn Jones, Rheolwr Traffig.

(b) **Cyngor Cymuned Llanbedr - Dim ond holi pryd bydd y gwaith o osod barrier ar draws y ffordd Crossing Talwrn Bach yn cael ei wneud. Deallwn fod y gwaith i fod i'w wneud eleni yn 2018.**

Adroddodd Mr Sam Hadley nad oedd unrhyw newyddion da am yr uchod. Y bwriad oedd dechrau ar y gwaith yn 2018, ond yn anffodus gan fod Carillion Construction wedi mynd i drafferthion ariannol, byddai'n rhaid i Network Rail fynd drwy'r broses o ail-dendro'r gwaith ac felly rhagdybiwyd mai yn 2019 y gwneir y gwaith.

**Penderfynwyd: Diolch am y cwestiynau ac am yr atebion ffafriol a gafwyd gan y swyddogion.**

**CADEIRYDD**

PARTNERIAETH RHEILFFYRDD Y CAMBRIAN RAILWAY PARTNERSHIP

**Rail Development Officers Report October 2018**

## Production of annual business and marketing plans with updates quarterly on progress

The business plan was approved by the partnership during Q4, and was approved by WG with the DRAFT award letter being received in March 2018.

The marketing plans have been published via social media, with engagement increasing during each campaign phase. We have seen significant clicks made onto the current train operating company's website; however we are unable to receive the data from them as to how many people proceeded to book tickets as they have advised us this dad is unavailable. The FB advertising for June, July and Aug had a total Reach of: 54,377 and total Engagement of: 9,067

For Twitter June, July and Aug there were 130,800 Impressions made and a total of new engagement of 763

During Q1 the partnership agreed to an extra spend for a targeted advert on SKY TV Focussing on English Border Local Authority areas of Shropshire, Telford & Wrekin for initial campaign in order to exceed ad viewing frequency of four times per household and to allow campaign to run over four weeks. This included a 20 second English language TV ad to maximise number of times (frequency) ad will be seen in target homes. The campaign to ran from Friday 29 June to Wednesday 29th August 2018 inclusive (to coincide with run up to and including school summer holidays).

The results of this advert will be made available to the RDO in Q3.

During Q2 the RDO has met with Visit Wales and the communications company to look at Campaigns for the Visit Wales 2019 Year of Discovery theme. Meetings with Transport For Wales Rail Services and the other CROWS's have taken place during Q2 to discuss working together to re-brand the Scenic Rail Wales programme. This will also be discussed with TfW,

WG and ACoRP at a meeting in Q3 with more detailed meetings taking place when TfW officially run the Wales and Borders route in Q3

**Participation in a minimum of one all-Wales community rail initiative targeted at tourism (i.e. promoting off-peak rail use), to be discussed with the Train Operating Company TOC, Welsh Government Transport Company/Rail Team and Visit Wales.**

As a result of this year's Community Rail in the City collaboration between the Community Rail Officers of Wales and the Great Little Trains of Wales, we entered this project into the AcoRP Annual Awards, under the "Best Marketing Project" and we are more than happy to have been shortlisted. The awards ceremony is being held in Glasgow this year, and will take place in Q3. This project has given us food for thought on what we can do for 2019, with idea workshops already taking place.

**Liaison/consultation/and involvement on the inclusion of Community Rail Partnership support as part of the next Wales & Borders franchise**

This relationship has already started progressing well, with meetings taking place with the mobilisation Stake-Holder Liaison Manager, TfW, WG and the Community Rail Officers of Wales and Borders where the plans for the new franchise were discussed, with ideas being requested from TfW on Community Rail projects within our lines that we can start looking to work on in partnership as well as any unused station buildings that could be used as Community hubs.

We are very much looking forward to the start of the new franchise in Q3.

**Community engagement, developing plans to expand the reach of the CRP to a wider range of groups including those socially disadvantaged and /or with protected characteristics**

The RDO has applied to the Alzheimer's Society for recognition as a Dementia Friendly Community. This will give us the accolade of being the first dementia friendly railway line in Wales. Whilst Bow Street will potentially be the first unmanned station, we are expecting Newtown to be the first manned station on the line to receive the recognition. The RDO is also running Dementia Friends Information Sessions for a number of the station adopters on the Cambrian Coast, which will play an important part on those stations receiving their status in the coming year.

**Consultation Responses. Respond to consultation requests in particular associated with Rail Franchises**

**Virgin Trains Conference & Workshops**

On September 20th Virgin Trains held its first Community Rail Conference and Workshop in Crewe. With Shrewsbury station being served by VT services I represented the partnership to learn more about their CR activities and hopefully have an opportunity to feed back our Community Rail aspirations. In their introduction they asked for all of us to consider 1 idea that VT could implement easily.

It was a morning of presentations and the workshops were based on different departments within VT such as apprenticeships and working with offenders.
Unfortunately we were not able to feed back some suggestions so I have followed up with them by email as follows:

*Virgin Trains currently offers half price single fares for sale on the internet only. Many people who can least afford to travel and have no access to the internet are being digitally excluded by this single method of purchase. Booking Offices where they rely on being sold the best fare are not able to access these cut price tickets.*

*We asked them to consider these sales being made through booking offices or through booking offices that are aligned to Community Rail Partnerships so we can allow those who need them most to benefit too.*

**4. Linking in with National Media Campaigns e.g.**

- **National Rail Safety Week**
- **Community Rail in the City**

We were pleased to be able to announce that the Community Rail Officers of Wales and the Great Little Trains of Wales, working together, were delighted to accept an invitation from Network Rail to stage a week-long event starting Sunday May 13th in the atrium of the freshly revamped Birmingham New Street station to promote travel into Wales and its coasts by train.

With Scenic Wales by Rail banners the Community Rail Officers of Wales & the Borders promoted the through services, operated by Arriva Trains Wales, which run from Birmingham New Street into the heart of Mid Wales and on to Machynlleth where it splits; taking the southern side of the Dovey estuary to Aberystwyth or turning north towards Pwllheli, hugging the coast all the way.

As a result of this, we entered this project into the AcoRP Annual Awards, under the “Best Marketing Project” and we are more than happy to have been shortlisted.  The awards ceremony is being held in Glasgow this year, and will take place in Q3.

The RDO has also met with Claire Hickman who is the new contact within Network Rail and has started looking at projects that we can work in partnership on along with the ODP for National Rail Safety Week in 2019.

**Claire Williams**
**Rail Development Officer**
**Cambrian Railways Partnership**
**claire.williams@ceredigion.gov.uk**

Rhian - Eitem 12

23 OCT 2018

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i GWEITHREDWR TRENAU / Question for TRAIN OPERATOR**

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

Beth yw y diweddaraf erbyn hyn ynglyn a gosod barrier ar groesfan Talwrn Bach, Llanbedr

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Oddiwrth / From: Cyng. Annwen Hughes

| | |
|---|---|
| **I'w dychwelyd i / To be returned to:** | Rhian Wyn Williams<br>Rheolwr Cludiant Intergredig / Integrated Transport Manager<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH |
| **Erbyn / By:** | 12/11/18 |

Rhian.

15 OCT 2018

# CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN
# CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE

**Cwestiwn i GWEITHREDWR TRENAU / Question for TRAIN OPERATOR**

Teithio o Porthmadog i Abermaw 4/8/18.

1) Pam fod y gwybodaeth ar y system uchelseinydd yn uniaith Saesneg yn yr Orsaf Porthmadog ? ?

2) Agwedd anghwrtais gan y Person 'Arweinydd tocynnau ar y tren' pan holais beth oedd y rheswm nad oeddwn yn cael defnyddio'r Cerdyn Teithio. (Pan fod teithwyr Blaenau Ffestiniog a Conwy yn cael ei defnyddio drwy'r flwyddyn) ??

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

Hefyd ??

Oddiwrth / From: (Cynghorydd Tref Porthmadog)

Richard Williams, Angorfa, 49 East Avenue Porthmadog LL49 9EL.

| **I'w dychwelyd i / To be returned to:** | Rhian Wyn Williams<br>Rheolwr Cludiant Intergredig / Integrated Transport Manager<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH |
|---|---|
| Atebion i'r uchod<br>Diolch<br>R | |
| **Erbyn / By:** | 12/11/18 |

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

| **Cwestiwn i GWEITHREDWR TRENAU / Question for TRAIN OPERATOR** |
|---|
| Dymunai Gyngor Tref Porthmadog dderbyn sicrhad gennych fod yr iaith Gymraeg am gael ei defnyddio ym mhob agwedd o wasanaeth gan y gweithredwr trenau ar reilffordd arfordir y Cambrian.<br><br>Dymunir gweld popeth yn ddwyieithog a dymunir gweld enwau llefydd yn cael eu hynganu /cyhoeddi mewn Cymraeg cywir. |

| **Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL** |
|---|
| Dymunai Gyngor Tref Porthmadog dderbyn sicrhad gennych fod yr iaith Gymraeg am gael ei defnyddio ym mhob agwedd o wasanaeth gan y gweithredwr trenau ar reilffordd arfordir y Cambrian.<br><br>Dymunir gweld popeth yn ddwyieithog a dymunir gweld enwau llefydd yn cael eu hynganu /cyhoeddi mewn Cymraeg cywir. |

| **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING** |
|---|
| Dymunai Gyngor Tref Porthmadog dderbyn sicrhad gennych fod yr iaith Gymraeg am gael ei defnyddio ym mhob agwedd o wasanaeth gan y gweithredwr trenau ar reilffordd arfordir y Cambrian.<br><br>Dymunir gweld popeth yn ddwyieithog a dymunir gweld enwau llefydd yn cael eu hynganu /cyhoeddi mewn Cymraeg cywir. |

Oddiwrth / From: .........CYNGOR TREF PORTHMADOG...........

Glenda Burke , Cerc - clerccyngtreport@gmail.com

| | |
|---|---|
| **I'w dychwelyd i / To be returned to:** | Rhian Wyn Williams<br>Rheolwr Cludiant Intergredig / Integrated Transport Manager<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH |
| **Erbyn / By:** | 12/11/18 |

Rhian

01 OCT 2018

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

| **Cwestiwn i GWEITHREDWR TRENAU / Question for TRAIN OPERATOR** |
|---|
| A YW HOLL LENYDDIAETH Y RHEILFFORDD CAMBRIAN YN HOLLOL DDWYIEITHOG ..? h.y.. POSTERI, TAFLENNI GWYBODAETH a.y.b OS NA, — YNA PRYD Y GELLIR DISGWYL I HYN DDIGWYDD? |

| **Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL** |
|---|
| A YW'R HOLL STAFF SY'N DELIO A'R CWSMERIAID AR REILFFORDD Y CAMBRIAN YN DDWYIEITHOG? OS NA — YNA PRYD Y GELLIR DISGWYL HYN? |

| **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING** |
|---|
| ↑ * FEL YR UCHOD |

Oddiwrth / From: CYNGHORYDD OWAIN WILLIAMS

ARWEINYDD LLAIS GWYNEDD

| **I'w dychwelyd i / To be returned to:** | Rhian Wyn Williams<br>Rheolwr Cludiant Intergredig / Integrated Transport Manager<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH |
|---|---|
| **Erbyn / By:** | 12/11/18 |

13 NOV 2018

**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

**Cwestiwn i GWEITHREDWR TRENAU / Question for TRAIN OPERATOR**

Are there any plans to provide specific guidance for passengers who are travelling to and from the Cambrian Coast line and the Cambrian Main Line west of Machynlleth in the next version of the printed pocket timetable (Dec. 2018)? [Any through carriages / change at Mach / change at Dyfi Jn etc.]

**Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL**

—

**Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING**

—

Oddiwrth / From: R. Goodhew, Shrewsbury to Aberystwyth Rail Passengers Association

| | |
|---|---|
| **I'w dychwelyd i / To be returned to:** | Rhian Wyn Williams<br>Rheolwr Cludiant Intergredig / Integrated Transport Manager<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH |
| **Erbyn / By:** | 12/11/18 |

## CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN
## CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE

### Cwestiwn i GWEITHREDWR TRENAU / Question for TRAIN OPERATOR

**Diogelwch**

- Pa gynlluniau sydd gennych i wella diogelwch teithwyr gyda'r nos e.e. teithwyr sydd yn aros mewn gorsaf reilffordd anghysbell fel cyffordd Dyfi a beth yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno unrhyw welliannau.
- Daeth i'm sylw yn ystod yr haf bod pobl ifanc yn chwarae ar y rheilffordd. Sut ydych chi'n cydweithio gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig i addysgu plant a phobl ifanc o'r peryglon o chwarae ar a ger rheilffyrdd?

**Cysylltedd/Amserlenni**

- Mae nifer o etholwyr yn cysylltu er mwyn mynegi eu profiadau o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac yn adrodd bod amserlenni trenau a bysiau er enghraifft ddim yn cysylltu'n effeithlon, gydag amseroedd aros hir iawn. Beth yw eich cynlluniau i wella cysylltedd trenau o Aberystwyth i Feirionnydd, a pha drafodaethau yr ydych wedi ei gael i wella cysyllted gyda bysiau?

### Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL

### Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for LIAISON MEETING

Oddiwrth / From: ………………………………………………………………

……………………………………………………………………………….

| | |
|---|---|
| **I'w dychwelyd i / To be returned to:** | Rhian Wyn Williams<br>Rheolwr Cludiant Intergredig / Integrated Transport Manager<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH |
| **Erbyn / By:** | 12/11/18 |